AWEL AMAN TAWE (AAT)

www.aat.cymru www.hwbygors.cymru

Hwb y Gors, Heol y Gors, Cwmgors, SA18 1UU

Recruitment Pack	Pecyn Recriwtio
Arts & Creative Programme Development Officer (Welsh Speaking)	Swyddog Datblygu Rhaglen Gelfyddydau a Chreadigrwydd (Siaradwr Cymraeg)

Terms of Employment 2
Help Shape the Creative Future of Hwb y Gors 2
About Awel Aman Tawe 2
About Hwb y Gors 3
Our Vision for the Arts at Hwb y Gors 3
Position Summary 3
Key Responsibilities 4
Person Specification 5
What Success Will Look Like 6
Why Join Us? 6
Application process 6
Equal opportunities 7

Telerau Cyflogaeth 8
Helpwch i Lunio Dyfodol Creadigol Hwb y Gors 8
Am Awel Aman Tawe 8
Am Hwb y Gors 9
Ein Gweledigaeth ar gyfer y Celfyddydau yn Hwb y Gors 9
Crynodeb o'r Swydd 9
Prif Gyfrifoldebau 10
Manyleb y Person 11
Sut Fydd Llwyddiant yn Edrych? 12
Pam Ymuno â Ni? 12
Y Broses Ymgeisio 12
Cyfle Cyfartal 13

Terms of Employment

Employer: **Awel Aman Tawe**

Reports to: **Centre Manager, Hwb y Gors**

Hours: **3 days per week**

Salary: **£30,000 p.a. pro rata**

Location: **Hwb y Gors, Cwmgors, SA18 1RF**

Holiday: **25 days plus statutory (pro rata)**

Pension: **6.5% employer contribution**

Welsh language: Welsh speaker

Closing Date: 11th December 2026

Interviews: 15th December 2026

Help Shape the Creative Future of Hwb y Gors

Hwb y Gors is entering an exciting new phase of development.

Developed by Awel Aman Tawe (AAT), Hwb y Gors has become a thriving community hub in the heart of the Amman Valley; a place where people come together to learn, create, share skills, improve wellbeing and build a stronger future for their community.

We believe creativity is essential to community life. Arts, crafts, making, cultural activities and creative expression help people develop confidence, improve wellbeing, build relationships, celebrate identity and create opportunities.

We are now seeking an ambitious Welsh-speaking Arts & Creative Programme Officer to lead the development of a dynamic programme of arts, crafts and creative activities that reflects the values of Hwb y Gors and the communities we serve.

This is not simply an arts administration role. We are looking for someone with the vision and organisational skills to develop a creative programme from the ground up, build strong partnerships, support local artists and practitioners, secure resources, generate income and establish Hwb y Gors as a recognised centre for creativity, culture and community participation.

About Awel Aman Tawe

Awel Aman Tawe is one of Wales' pioneering community energy charities. For more than 25 years we have worked alongside communities to tackle climate change, reduce inequalities and create opportunities through community-led action. Income generated through our renewable energy projects is reinvested into projects that strengthen communities, create opportunities and improve wellbeing. Our work spans community energy, environmental action, skills development, education, wellbeing, culture and community regeneration. Everything we do is guided by a commitment to sustainability, participation, inclusion and social justice.

About Hwb y Gors

Located in Cwmgors, Hwb y Gors has been developed as a welcoming community hub where people of all ages and backgrounds can access opportunities to learn, connect and thrive.

In addition to our community transport and energy advice team, the centre hosts a growing programme of activities including arts and crafts, community events, wellbeing activities, environmental projects, training opportunities and cultural activities. As the centre continues to develop, creativity will play an increasingly important role in helping us:

- Improve wellbeing and reduce isolation.
- Celebrate Welsh language and culture.
- Develop practical and creative skills.
- Support community participation.
- Create opportunities for local artists and makers.
- Generate income that contributes to the long-term sustainability of the centre.

Our Vision for the Arts at Hwb y Gors

We want Hwb y Gors to become a recognised creative hub for the Amman Valley and surrounding communities. We envisage a programme that blends creativity, wellbeing, culture, heritage and community development. Over the coming years we would like to develop:

- Regular arts and crafts workshops.
- Creative wellbeing programmes.
- Welsh-language creative activities.
- Community exhibitions and showcases.
- Artist-led projects and residencies.
- Traditional and heritage crafts.
- Intergenerational creative projects.
- Family learning activities.
- Opportunities for emerging artists and makers.
- Income-generating courses and workshops.
- Creative activities that connect with environmental sustainability and local identity.

The successful candidate will play a leading role in turning this vision into reality.

Position Summary

To develop, coordinate and grow a high-quality programme of arts, crafts and creative activities that strengthens community participation, supports wellbeing, celebrates local culture and contributes towards the long-term sustainability of Hwb y Gors.

The post holder will be responsible for designing and delivering projects, managing budgets, developing partnerships, supporting artists and tutors, generating income and ensuring projects are successfully delivered from conception through to evaluation.

Key Responsibilities

Strategic Development

- Develop a clear vision and plan for arts and creative programming at Hwb y Gors.
- Identify emerging opportunities, partnerships and funding streams.
- Ensure creative activities align with the wider aims and values of Awel Aman Tawe.
- Contribute to the ongoing development of Hwb y Gors as a flagship community facility.

Project Management

- Design, plan and manage a range of arts and creative projects.
- Produce project plans, timelines, risk assessments and delivery schedules.
- Manage multiple projects simultaneously.
- Monitor progress, outputs, outcomes and budgets.
- Collect evaluation data and support the preparation of reports for funders and stakeholders.
- Ensure projects are delivered on time, within budget and to a high standard.

Programme Delivery

- Develop and coordinate workshops, classes, exhibitions, creative events and community projects.
- Recruit, brief and support artists, tutors and creative practitioners.
- Ensure activities are accessible, inclusive and welcoming.
- Encourage participation from individuals who may not traditionally engage with arts activities.

Community Engagement

- Build relationships with local residents, community groups and partner organisations.
- Develop opportunities for local people to influence and shape programming.
- Promote Welsh language and local cultural identity through programme activity.
- Develop initiatives that support social inclusion, wellbeing and community resilience.

Financial Sustainability

- Develop activities that generate earned income through workshops, courses, commissions and events.
- Support funding applications and project development opportunities.
- Monitor income and expenditure against agreed targets.
- Identify opportunities for sponsorship, partnerships and collaborative projects.
- Contribute towards creating a sustainable long-term arts programme.

Marketing and Communications

- Work with colleagues to promote activities and increase participation.
- Develop engaging content for publicity and social media.
- Gather case studies, stories and participant feedback.

- Promote the creative identity and reputation of Hwb y Gors.

General Responsibilities

- Operate in accordance with organisational policies and procedures.
- Promote equality, diversity and inclusion.
- Undertake any other duties reasonably required to support the successful operation of Hwb y Gors.

Person Specification

Essential Criteria

Experience

- Experience of delivering and managing arts, cultural, creative or community-based projects.
- Demonstrable project management experience including planning, budgeting, delivery and evaluation.
- Experience of developing workshops, programmes, courses or events.
- Experience of working with artists, makers, freelancers or creative practitioners.
- Experience of managing project budgets and resources.
- Experience of building partnerships and working collaboratively with a range of stakeholders.
- Degree-level qualification in Fine Art, Applied Arts, Community Arts, Arts Management, Creative Practice or a related arts discipline.

Knowledge and Understanding

- Strong understanding of participatory and community arts practice.
- Understanding of how creativity can contribute to wellbeing, inclusion and community development.
- Good understanding of the social, cultural and economic context of the Amman Valley and surrounding communities.

Skills

- Excellent organisational and project management skills.
- Strong communication and interpersonal skills.
- Ability to manage competing priorities and deadlines.
- Ability to build productive partnerships and networks.
- Strong administrative and IT skills.

Welsh Language

- Fluent Welsh speaker able to communicate confidently in Welsh and English.

Personal Attributes

- Creative and innovative.
- Entrepreneurial and solutions-focused.
- Self-motivated and able to work independently.
- Passionate about community development.
- Committed to the values of Awel Aman Tawe and Hwb y Gors.

Desirable Criteria

- Experience of fundraising or supporting funding applications.
- Experience of commissioning artists or managing freelance contracts.
- Existing networks within the Welsh arts sector.
- Understanding of the community arts funding landscape in Wales.
- Experience of Welsh-language arts or cultural programming.

What Success Will Look Like

Within the first 12 months we would expect the successful candidate to:

- Establish a coherent creative programme.
- Build relationships with artists, tutors and community partners.
- Increase participation in arts and creative activities.
- Develop a programme that balances social impact with financial sustainability.
- Deliver a number of high-quality community arts projects.
- Strengthen the reputation of Hwb y Gors as a centre for creativity and culture.

Why Join Us?

This is an opportunity to help shape the creative future of Hwb y Gors. You will have the freedom to develop new ideas, work with talented artists and community partners, celebrate Welsh language and culture and create opportunities that make a genuine difference to people's lives.

If you are excited by the idea of building something meaningful, developing a lasting creative legacy and helping creativity flourish in the Amman Valley, we would love to hear from you.

Application process

Please send your **CV** and a **covering letter** clearly explaining why you want to work with us, how your experience meets all the expectations of the role.

Email your application to: croeso@awel.coop

Subject line: Arts & Creative Programme Development Officer

Closing Date: 11th December 2026

Interviews: 15th December 2026

Start Date: January 4th 2027

Website: https://hwbygors.cymru/

This post is part-funded by National Lottery People and Places

Equal Opportunities

Positions are open to all suitably qualified candidates regardless of age, disability, gender, marriage/civil partnership, pregnancy/maternity, race, religion or belief, sex, or sexual orientation.

Telerau Cyflogaeth

Cyflogwr: Awel Aman Tawe

Yn atebol i: Rheolwr Canolfan, Hwb y Gors

Oriau: 3 diwrnod yr wythnos

Cyflog: £30,000 y flwyddyn pro rata

Lleoliad: Hwb y Gors, Cwmgors, SA18 1RF

Gwyliau: 25 diwrnod ynghyd â gwyliau statudol (pro rata)

Pensiwn: Cyfraniad cyflogwr o 6.5%

Iaith Gymraeg: Siaradwr Cymraeg

Dyddiad Cau: 11 Rhagfyr 2026

Cyfweliadau: 15 Rhagfyr 2026

Helpwch i Lunio Dyfodol Creadigol Hwb y Gors

Mae Hwb y Gors yn cychwyn ar gyfnod cyffrous newydd o ddatblygiad. Mae Hwb y Gors, a ddatblygwyd gan Awel Aman Tawe (AAT), wedi dod yn ganolbwynt cymunedol ffyniannus yng nghalon Cwm Aman; man lle mae pobl yn dod at ei gilydd i ddysgu, creu, rhannu sgiliau, gwella llesiant ac adeiladu dyfodol cryfach i'w cymuned.

Credwn fod creadigrwydd yn hanfodol i fywyd cymunedol. Mae'r celfyddydau, crefftau, gwneud, gweithgareddau diwylliannol a mynegiant creadigol yn helpu pobl i ddatblygu hyder, gwella llesiant, meithrin perthnasoedd, dathlu hunaniaeth a chreu cyfleoedd.

Rydym nawr yn chwilio am Swyddog Datblygu Rhaglen Gelfyddydau a Chreadigrwydd uchelgeisiol sy'n siarad Cymraeg i arwain datblygiad rhaglen ddeinamig o weithgareddau celfyddydol, crefft a chreadigol sy'n adlewyrchu gwerthoedd Hwb y Gors a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Nid rôl weinyddol ym maes y celfyddydau yn unig yw hon. Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r weledigaeth a'r sgiliau trefnu i ddatblygu rhaglen greadigol o'r cychwyn cyntaf, adeiladu partneriaethau cryf, cefnogi artistiaid ac ymarferwyr lleol, sicrhau adnoddau, creu incwm a sefydlu Hwb y Gors fel canolfan gydnabyddedig ar gyfer creadigrwydd, diwylliant a chyfranogiad cymunedol.

Am Awel Aman Tawe

Mae Awel Aman Tawe yn un o elusennau ynni cymunedol arloesol Cymru. Ers dros 25 mlynedd rydym wedi gweithio ochr yn ochr â chymunedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, lleihau anghydraddoldebau a chreu cyfleoedd drwy weithredu a arweinir gan y gymuned. Mae'r incwm a gynhyrchir gan ein prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael ei ail-fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cryfhau cymunedau, yn creu cyfleoedd ac yn gwella llesiant. Mae ein gwaith yn ymestyn ar draws ynni cymunedol, gweithredu amgylcheddol, datblygu sgiliau, addysg, llesiant, diwylliant ac adfywio cymunedol. Mae popeth a wnawn yn cael ei arwain gan ymrwymiad i gynaliadwyedd, cyfranogiad, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol.

Am Hwb y Gors

Wedi'i leoli yng Nghwmgors, mae Hwb y Gors wedi'i ddatblygu fel canolfan gymunedol groesawgar lle gall pobl o bob oedran a chefndir gael mynediad at gyfleoedd i ddysgu, cysylltu a ffynnu.

Yn ogystal â'n tîm trafnidiaeth cymunedol a chyngor ynni, mae'r ganolfan yn cynnig rhaglen gynyddol o weithgareddau gan gynnwys celf a chrefft, digwyddiadau cymunedol, gweithgareddau llesiant, prosiectau amgylcheddol, cyfleoedd hyfforddi a gweithgareddau diwylliannol.

Wrth i'r ganolfan barhau i ddatblygu, bydd creadigrwydd yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth ein helpu i:

- Wella llesiant a lleihau unigedd.
- Dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Datblygu sgiliau ymarferol a chreadigol.
- Cefnogi cyfranogiad cymunedol.
- Creu cyfleoedd i artistiaid a gwneuthurwyr lleol.
- Cynhyrchu incwm sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y ganolfan.

Ein Gweledigaeth ar gyfer y Celfyddydau yn Hwb y Gors

Rydym am i Hwb y Gors ddod yn ganolfan greadigol gydnabyddedig i Gwm Aman a'r cymunedau cyfagos. Rydym yn rhagweld rhaglen sy'n cyfuno creadigrwydd, llesiant, diwylliant, treftadaeth a datblygu cymunedol.

Dros y blynyddoedd nesaf hoffem ddatblygu:

- Gweithdai celf a chrefft rheolaidd.
- Rhaglenni llesiant creadigol.
- Gweithgareddau creadigol cyfrwng Cymraeg.
- Arddangosfeydd a digwyddiadau arddangos cymunedol.
- Prosiectau a chyfnodau preswyl dan arweiniad artistiaid.
- Crefftau traddodiadol a threftadaeth.
- Prosiectau creadigol rhyng-genhedlaeth.
- Gweithgareddau dysgu teuluol.
- Cyfleoedd i artistiaid a gwneuthurwyr sy'n datblygu.
- Cyrsiau a gweithdai sy'n cynhyrchu incwm.
- Gweithgareddau creadigol sy'n cysylltu cynaliadwyedd amgylcheddol â hunaniaeth leol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan flaenllaw wrth wireddu'r weledigaeth hon.

Crynodeb o'r Swydd

Datblygu, cydlynu ac ehangu rhaglen o weithgareddau celfyddydol, crefft a chreadigol o ansawdd uchel sy'n cryfhau cyfranogiad cymunedol, yn cefnogi llesiant, yn dathlu diwylliant lleol ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor Hwb y Gors.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddylunio a chyflawni prosiectau, rheoli cyllidebau, datblygu partneriaethau, cefnogi artistiaid a thiwtoriaid, cynhyrchu incwm a sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflwyno'n llwyddiannus o'r cysyniad cychwynnol hyd at werthuso.

Prif Gyfrifoldebau

Datblygu Strategol

- Datblygu gweledigaeth glir a chynllun ar gyfer rhaglenni celfyddydol a chreadigol yn Hwb y Gors.
- Adnabod cyfleoedd, partneriaethau a ffynonellau cyllid newydd.
- Sicrhau bod gweithgareddau creadigol yn cyd-fynd ag amcanion a gwerthoedd ehangach Awel Aman Tawe.
- Cyfrannu at ddatblygiad parhaus Hwb y Gors fel cyfleuster cymunedol blaenllaw.

Rheoli Prosiectau

- Dylunio, cynllunio a rheoli portffolio o brosiectau celfyddydol a chreadigol.
- Paratoi cynlluniau prosiect, amserlenni, asesiadau risg a rhaglenni cyflawni.
- Rheoli nifer o brosiectau ar yr un pryd.
- Monitro cynnydd, allbynnau, canlyniadau a chyllidebau.
- Casglu data gwerthuso a pharatoi adroddiadau ar gyfer cyllidwyr a rhanddeiliaid.
- Sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n brydlon, o fewn y gyllideb ac i safon uchel.

Cyflawni Rhaglenni

- Datblygu a chydlynu gweithdai, dosbarthiadau, arddangosfeydd, digwyddiadau creadigol a phrosiectau cymunedol.
- Recriwtio, briffio a chefnogi artistiaid, tiwtoriaid ac ymarferwyr creadigol.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n hygyrch, cynhwysol a chroesawgar.
- Annog cyfranogiad gan unigolion na fyddent fel arfer yn ymwneud â gweithgareddau celfyddydol.

Ymgysylltu â'r Gymuned

- Adeiladu perthnasoedd gyda thrigolion lleol, grwpiau cymunedol a sefydliadau partner.
- Datblygu cyfleoedd i bobl leol ddylanwadu ar raglenni a'u siapio.
- Hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol leol drwy weithgareddau'r rhaglen.
- Datblygu mentrau sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, llesiant a gwydnwch cymunedol.

Cynaliadwyedd Ariannol

- Datblygu gweithgareddau sy'n cynhyrchu incwm drwy weithdai, cyrsiau, comisiynau a digwyddiadau.
- Cefnogi ceisiadau cyllid a chyfleoedd datblygu prosiectau.
- Monitro incwm a gwariant yn erbyn targedau cytûn.
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer nawdd, partneriaethau a phrosiectau cydweithredol.
- Cyfrannu at greu rhaglen gelfyddydol gynaliadwy hirdymor.

Marchnata a Chyfathrebu

- Gweithio gyda chydweithwyr i hyrwyddo gweithgareddau a chynyddu cyfranogiad.
- Datblygu cynnwys deniadol ar gyfer cyhoeddusrwydd a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Casglu astudiaethau achos, straeon ac adborth cyfranogwyr.
- Hyrwyddo hunaniaeth greadigol ac enw da Hwb y Gors.

Cyfrifoldebau Cyffredinol

- Gweithredu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad.
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n rhesymol ofynnol i gefnogi gweithrediad llwyddiannus Hwb y Gors.

Manyleb y Person

Meini Prawf Hanfodol

Profiad a Chymwysterau

- Profiad o gyflawni a rheoli prosiectau celfyddydol, diwylliannol, creadigol neu gymunedol.
- Profiad amlwg o reoli prosiectau, gan gynnwys cynllunio, cyllidebu, cyflawni a gwerthuso.
- Profiad o ddatblygu gweithdai, rhaglenni, cyrsiau neu ddigwyddiadau.
- Profiad o weithio gydag artistiaid, gwneuthurwyr, gweithwyr llawrydd neu ymarferwyr creadigol.
- Profiad o reoli cyllidebau ac adnoddau prosiectau.
- Profiad o adeiladu partneriaethau a gweithio ar y cyd gydag amrywiaeth o randdeiliaid.
- Cymhwyster gradd mewn Celf Gain, Celf Gymhwysol, Celfyddydau Cymunedol, Rheolaeth y Celfyddydau, Ymarfer Creadigol, Astudiaethau Diwylliannol neu ddisgyblaeth gelfyddydol berthnasol.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

- Dealltwriaeth gadarn o arferion celfyddydol cyfranogol a chymunedol.
- Dealltwriaeth o sut y gall creadigrwydd gyfrannu at lesiant, cynhwysiant a datblygiad cymunedol.
- Dealltwriaeth dda o gyd-destun cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cwm Aman a'r cymunedau cyfagos.

Sgiliau

- Sgiliau trefnu a rheoli prosiectau rhagorol.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf.
- Y gallu i reoli blaenoriaethau a therfynau amser sy'n cystadlu â'i gilydd.
- Y gallu i adeiladu partneriaethau a rhwydweithiau cynhyrchiol.
- Sgiliau gweinyddol a TG cryf.

Iaith Gymraeg

- Siaradwr Cymraeg rhugl sy'n gallu cyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Priodoleddau Personol

- Creadigol ac arloesol.
- Mentrus ac yn canolbwyntio ar ddatrysiadau.
- Hunan-gymhellol ac yn gallu gweithio'n annibynnol.
- Yn angerddol dros ddatblygiad cymunedol.
- Wedi ymrwymo i werthoedd Awel Aman Tawe a Hwb y Gors.

Meini Prawf Dymunol

- Profiad o godi arian neu gefnogi ceisiadau cyllid.
- Profiad o gomisiynu artistiaid neu reoli contractau llawrydd.
- Rhwydweithiau presennol o fewn sector celfyddydol Cymru.
- Profiad o raglennu gweithgareddau mewn canolfan neu leoliad.
- Dealltwriaeth o dirwedd ariannu celfyddydau cymunedol yng Nghymru.
- Profiad o ddatblygu rhaglenni celfyddydol neu ddiwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut Fydd Llwyddiant yn Edrych?

O fewn y 12 mis cyntaf byddem yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- Sefydlu rhaglen greadigol gydlynol.
- Adeiladu perthnasoedd gydag artistiaid, tiwtoriaid a phartneriaid cymunedol.
- Cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol a chreadigol.
- Datblygu rhaglen sy'n cydbwyso effaith gymdeithasol â chynaliadwyedd ariannol.
- Cyflawni nifer o brosiectau celfyddydol cymunedol o ansawdd uchel.
- Cryfhau enw da Hwb y Gors fel canolfan creadigrwydd a diwylliant.

Pam Ymuno â Ni?

Mae hwn yn gyfle i helpu i lunio dyfodol creadigol Hwb y Gors. Bydd gennych y rhyddid i ddatblygu syniadau newydd, gweithio gydag artistiaid talentog a phartneriaid cymunedol, dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a chreu cyfleoedd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Os ydych yn gyffrous am y syniad o adeiladu rhywbeth ystyrlon, datblygu etifeddiaeth greadigol barhaol a helpu creadigrwydd i ffynnu yng Nghwm Aman, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Y Broses Ymgeisio

Anfonwch eich **CV** a **llythyr eglurhaol** yn nodi'n glir pam yr hoffech weithio gyda ni a sut mae eich profiad yn bodloni gofynion y rôl.

E-bostiwch eich cais at: croeso@awel.coop

Pwnc yr e-bost: Swyddog Datblygu Rhaglen Gelfyddydau a Chreadigrwydd

Dyddiad Cau: 11 Rhagfyr 2026

Cyfweliadau: 15 Rhagfyr 2026

Dyddiad Cychwyn: Ionawr 4ydd 2027

Gwefan: https://hwbygors.cymru/

Cyfle Cyfartal

Mae'r swydd hon yn agored i bob ymgeisydd addas waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.